

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Dydd Iau 19 Tachwedd 2020 am 12 hanner dydd

Cyfarfod wedi'i gynnal drwy Zoom

1. Cyflwyniadau a Chroeso

Gwnaeth y Cadeirydd, Peter Davies, groesawu aelodau i'r rhith-gyfarfod gan eu hysbysu y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio.

Cyflwynodd y Cadeirydd y pen uchaf rhithiol, Ruth Marks, Prif Weithredwr a Jonathan Evans, Trysorydd.

2. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan 5 aelod.

3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Venue Cymru, Llandudno, Dydd Iau 21 Tachwedd 2019

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

4. Cyflwyno Adroddiad Blynyddol CGGC ar gyfer 2019/20

Gwnaeth y Cadeirydd, ar ran y Bwrdd, ddiolch i'r Prif Weithredwr a'r tîm staff am eu gwaith mewn cyfnod sydd wedi bod yn un diddorol a heriol.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr Adroddiad Blynyddol i aelodau, a oedd hefyd yn cynnwys fideo byr wedi'i animeiddio yn dangos rhai o uchafbwyntiau 2019 a dechrau 2020. Gwnaeth y Prif Weithredwr fyfyrion ar rai o'r newidiadau mewn cyflymder yn ystod y flwyddyn ac amlygu rhai o effeithiau mwyaf ein gwaith.

Yn gryno:

- Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn heb ei thebyg. Mae gwydnwch, brwdfrydedd ac ymrwymiad y sector wedi bod yn rhyfeddol.
- Mae CGGC yn gysylltydd yn ymgysylltu â'n haelodau a'n partneriaid i helpu i ddylanwadu ar gamau gweithredu a newid. Eleni, rydym wedi cysylltu â mwy o bobl â phrofiadau a diddordebau gwahanol nag erioed o'r blaen. Rydym wedi ymhél â'r sectorau cyhoeddus a phreifat i gael arian, cyfarpar diogelu personol a llawer o bethau eraill hanfodol.
- Dylanwadu ar y cynllun ffyrlo a rhoi cymorth sylweddol i elusennau a grwpiau cymunedol. Mae rhai o'n cyllidwyr a'n partneriaid yma heddiw, diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth, rydym yn ei gwerthfawrogi'n fawr iawn.
- Mae CGGC yn bartner yn y Fforwm Cymdeithas Sifil ar Brexit a thrwy weithio gyda Chanolfan Llywodraethiant Cymru (rhan o Brifysgol Caerdydd) a'n haelodau, rydym wedi gallu casglu a rhannu tystiolaeth a helpu'r sector i baratoi ar gyfer y newidiadau i ddod. Ar yr un pryd, rydym wedi parhau i helpu'r sector drwy ddefnyddio cronfeydd Ewropeaidd i gefnogi pob math o brosiectau, gan gynnwys addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. A phob un ohonynt yn gwneud cyfraniad hanfodol at economi a chymdeithas sifil Cymru.
- Mae gan CGGC arbenigedd go iawn mewn dod o hyd i adnoddau, gweinyddu cyllid grant a dosbarthu arian i'r sector. Roedd y sgiliau hyn yn ddefnyddiol ar ddechrau'r flwyddyn hon pan oeddem yn gallu rhoi cymorth i grwpiau a oedd yn gweithio gyda phobl a oedd wedi'u heffeithio gan y stormydd a'r llifogydd.
- Gwnaeth CGGC ddosbarthu mwy na £75,000 i bobl a oedd yn cefnogi cymunedau a effeithiwyd gan storm Dennis. Roedd hyn ar ben y cyllid rydym yn ei ddosbarthu i brosiectau ac achosion da yn y wlad hon a thramor, a chyda'i gilydd, gwnaeth CGGC weinyddu dros £14.5 miliwn i'r sector ledled Cymru a thramor yn ystod 2019/20.
- Mae gwirfoddolwyr yn ganolog i'n gwaith ac ni fu rôl gwirfoddolwyr mewn elusennau erioed mor amlwg nag yn ystod pandemig covid. Yng ngeiriau'r Prif Weinidog, mae gwaith gwirfoddolwyr wedi bod yn amhrisiadwy.
- Mae partneriaethau yn hanfodol i CGGC. Mae CGGC yn bartner yn TSSW, rhwydwaith o gynghorau gwirfoddol sirol (CVCs) a chanolfannau gwirfoddoli sy'n cefnogi'r sector ym mhob cwr o'r wlad. Mae ymrwymiad, gwybodaeth a phrofiad ein cydweithwyr yn y CVC bob amser wedi bod yn ysbrydoledig, ac ni fu hyn erioed

mor amlwg nag yn ystod yr ymateb i Covid-19, lle rhoddwyd blaenoriaeth i ddatrysiadau seiliedig ar leoedd yn aml dros weithgareddau eraill.

- Uchafbwynt gwych o'r flwyddyn oedd ein Gwobrau Elusennau Cymru cyntaf a gynhaliwyd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng nghwmni mwy na 200 o fynychwyr. Gwnaethom gydnabod a dathlu llawer o elusennau a gwirfoddolwyr o bob cwr o Gymru.

Gwnaeth y Prif Weithredwr ddiolch i'r aelodau am rannu ein gwerthoedd a'n cred ein bod yn gwneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd, fel partneriaid, cyllidwyr, ymddiriedolwyr, Llywydd, Is-lywydd a'r tîm staff gwych.

Derbyniodd aelodau'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019/20.

5. Siaradwr gwadd, Elin Maher: Bod yn ddefnyddiol mewn cyfnodau heriol

Croesawodd yr aelodau'r siaradwr gwadd, Elin Maher, ymgynghorydd yn Cyfrwng. Mae Elin hefyd yn aelod gweithredol o Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC).

Mae pob un ohonom yn ymwybodol o ba mor bwysig yw cyfathrebu digidol erbyn hyn, yn enwedig yn ystod y misoedd diwethaf, ond nid yw digidol yn un cysyniad neu offeryn ymarferol sy'n addas i bawb. Trafododd Elin y rôl y mae wedi'i chwarae mewn cydlynu dull partneriaeth go iawn o ymhél â siaradwyr Cymraeg nad ydynt o bosibl wedi cael mynediad i'r rhyngwyd a sut mae pob un ohonom wedi gorfod addasu yn y cyfnod gwahanol hwn.

Mewn partneriaeth ag CGGC, Merched y Wawr, Eisteddfod, Age Cymru, Mentrau Iaith a TSSW, datblygwyd llinell ffôn newydd, Cynllun Cyfaill Cymru/Friends in Wales. Mae'r llinell ffôn wedi cysylltu pobl sydd wedi'u hallgau'n ddigidol â gwasanaeth cyfeillio yn ystod y pandemig.

Chwaraewyd yr hysbyseb ar gyfer y gwasanaeth hwn, a gafodd ei hysbysebu ar S4C.

6. Cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2019/2020

Roedd y Cadeirydd yn dymuno cydnabod rôl PwC i alluogi Jonathan Evans i ymgymryd â'r rôl hanfodol hon fel trysorydd CGGC.

Cyflwynodd y Trysorydd y cyfrifon blynyddol archwiliedig i'r grŵp ar gyfer y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2020. Cymeradwywyd y cyfrifon gan

Fwrdd CGGC ar 9 Medi 2020 a derbyniasant farn ddiamed gan yr Archwilwyr, Bevan Buckland LLP.

Roedd rhai o'r prif ffigurau yn cynnwys:

- Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchodd CGGC gyfanswm o £21.2 miliwn o incwm gweithredu. Gyda'i gilydd, mae hyn yn gynydd o 28.4% ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r incwm hwn yn cynnwys incwm cyfyngedig o £18.5 miliwn sydd ychydig dros 32% yn uwch na'r flwyddyn ddiwethaf. O'r incwm, mae £18.2 miliwn o hwn yn grantiau a dderbyniwyd gan 12 o ffynonellau.
- Mae'r symudiadau nodedig yn y flwyddyn yn cynnwys £1.2 miliwn gan Comic Relief, cynnydd o 3.8% i 8.4% gan WEFO a gostyngiad o £382 mil gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â gostyngiadau eraill a ddaeth i £575 mil. Er bod 12 o ffynonellau, yr un faint ag y llynedd, mae cryn dipyn o symudiad yn natur y ffynonellau hyn. Mae hyn yn dangos pa mor llwyddiannus y mae CGGC wedi bod mewn dod o hyd i ffynonellau newydd wrth i eraill ddod i ben.
- Mae'r incwm cyfyngedig hefyd yn cynnwys £210 mil mewn incwm buddsoddi, ychydig yn llai na'r flwyddyn gynt a £36 mil o hyfforddiant a chyhoeddusrwydd, sy'n 37% yn llai na'r flwyddyn gynt.
- Mae'r incwm anghyfyngedig o 2.7% i 10% yn uwch na'r flwyddyn gynt, sy'n cynnwys gostyngiad o bron £50 mil mewn incwm masnachu ar draws pob maes. Fodd bynnag, gwneir iawn am hyn mewn grantiau a dderbyniwyd, sydd ychydig dros £320 mil neu 35% i £1.24 miliwn.
- Mae'r costau gweithredu yn dod i £20.9 miliwn. Mae hwn 26% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, ac yn cynnwys £18.2 miliwn o gyllid cyfyngedig a £2.7 miliwn o gyllid anghyfyngedig. Mae hyn yn gynydd o 30% a 6% yn ôl eu trefn ar y flwyddyn flaenorol.
- Mae'r gwariant cyfyngedig yn cynnwys 388 o grantiau a dalwyd i'r sector, cyfanswm o £14.6 miliwn, sy'n 36% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol ac yn cynnwys £2.7 miliwn o gyllid cyfatebol.
- Felly, ar lefel uchel, mae cyfanswm yr incwm wedi cynyddu 29% ers y flwyddyn flaenorol, mae'r grantiau i'r sector wedi cynyddu 36% ac mae'r gwariant elusennol uniongyrchol sy'n cefnogi ac yn galluogi'r canlyniadau hyn dim ond wedi cynyddu 7.7%. Mae hyn yn dangos bod rheolwyr a staff CGGC wedi ystyried a chanolbwyntio ar wneud defnydd effeithiol o adnoddau.
- Mae'r incwm cyfunol net o £223 mil yn cynrychioli alldro da am y flwyddyn ac o flaen y gyllideb. Mae rhai addasiadau pwysig o dan y llinell, gan gynnwys colled actiwaraidd o £1.3 miliwn ar y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio a symudiadau negyddol eraill

sy'n ymwneud ag ailbriso asedau sefydlog a buddsoddiadau o £123 mil. Mae'r symudiad cyfunol net mewn cyllid yn swm negyddol o £1.2 miliwn.

- Cadwyd gafaél ar £7.18 miliwn o Asedau Net, ychydig dros 14%, yn bennaf, fel y nodwyd, oherwydd y symudiad ailbriso ar asedau sefydlog a'r golled actiwaraidd ar bensiynau
- Ynghyd â chynnydd net mewn arian yn ystod y flwyddyn, £272 mil, mae hyn yn rhoi CGGC mewn sefyllfa dda i gefnogi'r sector yn y dyfodol.

Mae'r Bwrdd a'r tîm uwch-reoli yn canolbwyntio ar strategaeth ariannol bwylllog a gofalus er mwyn sicrhau bod sefyllfa ariannol CGGC yn cael ei diogelu i gefnogi cynaliadwyedd parhaus y mudiad a chael cymaint â phosibl o elw cyffredinol i'r sector.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n fawr ar hyn y flwyddyn hon, ynghyd â chyfle yn enwedig o ran ein strategaeth eiddo.

Mae ein tîm cyllid rhagorol wedi gweithio ar draws y mudiad i drawsnewid y dull gweithredu ar gyfer cyllidebu blynyddol. Mae hyn yn ategu gwaith sydd ar droed ar hyn o bryd i ailwampio ein cynllun ariannol 5 mlynedd, gyda phwyslais ar gynorthwyo CGGC i allu ymateb yn gyflym ac yn briodol i gyfleoedd wrth iddynt ymddangos. Gan gynnwys, yn fwy diweddar, o ran cyllid argyfwng Covid-19.

Rhwng hyn a newid yr archwilydd allanol a gymeradwywyd gan aelodau am gyfnod o 3 blynedd y llynedd, mae wedi bod yn flwyddyn brysur i'r tîm cyllid.

Diolchodd y Trysorydd i'r Cyfarwyddwr Cyllid, Tracey Marsh, a'r tîm cyllid am eu hymrwymiad, ac ar ran y Bwrdd, dymunodd ddiolch i Alison Vickers a Johnathan Dight o Bevan Buckland LLP.

Dymunai'r Trysorydd hefyd ddiolch i Bwyllgor Cyllid a Bwrdd Ymddiriedolwyr CGGC.

Derbyniodd yr aelodau'r datganiad o gyfrifon ar gyfer 2019/20.

7. Siaradwr gwadd, Nigel Ward: Alla i gario hwnna i ti #DymaEinGwaith

Croesawodd aelodau'r siaradwr gwadd, Nigel Ward, Cadeirydd Beiciau Gwaed Cymru. Mae Beiciau Gwaed Cymru yn rhoi gwasanaeth cludo am ddim i'r GIG, gan ddibynnu'n gyfan gwbl ar wirfoddolwyr a rhoddion

i gynnig y gwasanaeth hwn. Caiff y gweithrediadau eu gwasgaru dros 8000 o filltiroedd sgwâr o Gymru.

Cyflwynodd Nigel gipolwg ar sut mae Beiciau Gwaed Cymru wedi bod yn gweithredu yn ystod y pandemig wrth lynu at eu hamcanion elusennol.

8. Cau

Amlygodd y Cadeirydd ymgyrch ar-lein CGGC #NidGwobrauElusennauCymru a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref i amlygu a chydabod y gwaith rhyfeddol sy'n cael ei wneud gan y sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn. Cafodd yr ymgyrch ei lansio gan nad oedd digwyddiad Gwobrau Elusennau Cymru yn gallu cael ei gynnal y flwyddyn hon.

Chwaraewyd fideo ymgyrch byr i ddweud diolch yn fawr i bawb sy'n gweithio o fewn y sector.

Dymunai'r Cadeirydd ddiolch i Fwrdd Ymddiriedolwyr CGGC, y Prif Weithredwr a'r tîm staff am y gwaith gwych y maen nhw wedi'i wneud drwy gydol 2020.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol a daeth â'r cyfarfod i ben am 12:55pm.